Ysbyty Cygnet Kewstoke

Mae Ysbyty Cygnet Kewstoke yn ysbyty diogel isel wedi'i leoli ar 16 erw o'i dir ei hunan, sy'n darparu 57 gwely i gleifion preswyl mewn pedair ward ar wahân.

Gwasanaethau

Mae'r pedair ward, yn ôl y fanyleb ddiogel isel, yn darparu ar gyfer cleifion ar lwybr gofal o'r adeg dderbyn i adfer ac i'r adeg ryddhau.

Rydym yn darparu'r gwasanaethau canlynol:

- Gofal Dwys Seiciatryddol i Ddynion
- Ymddygiad Heriol Diogel Isel i Ddynion
- Adfer Diogel Isel i Ddynion
- Adfer Diogel Isel i Fenywod

Cyfleusterau

Mae'r ysbyty o fewn cyrraedd i'r heol a'r cyfleusterau rheilffordd ac mae'r lleoliad cymunedol yn golygu ei fod yn agos i'r cyfleusterau hamdden lleol. Saif mewn 16 erw o dir wedi'i dirlunio yn wynebu'r Môr Hafren, ac felly yn darparu lleoliad tawel a therapiwtig ar gyfer y broses driniaeth.

Mae cyfleusterau yn cynnwys:

- Ystafelloedd sengl gydag ystafelloedd ymolchi *en-suite*
- Mae gan bob ward ei gardd ddynodedig ei hunan a/neu deras
- Campfa sy'n llawn cyfarpar a gweithgareddau
- 16 erw o dir

Y Tîm

Mae'r tîm Amlddisgyblaethol yn cynnwys:

- Seiciatryddion ymgynghorol
- Seiciatryddion Gradd Staff
- Nyrsiau Iechyd Meddwl Cofrestredig
- Gweithwyr Cymorth Clinigol
- Seicolegwyr Clinigol
- Gweithwyr Cymdeithasol
- Therapïau Galwedigaethol
- Therapyddion Sesiynol - crochenydd, seicotherapydd celf, cynghorydd cyffuriau ac alcohol
- Hyfforddwr Campfa

Atgyfeirio

Gallwch wneud atgyfeiriadau trwy ffonio neu ffacsio 24 awr y dydd. Wrth dderbyn atgyfeiriad, anelwn at hysbysu timau o'n penderfyniad yn brydlon a byddwn yn trefnu ymweliadau oddi ar y safle at ddiben asesu pan fo'n angenrheidiol.

Trefnir derbyniadau, os yw'n briodol, mor fuan ag sy'n bosibl.

Ffoniwch 01934 428989 i gael rhagor o wybodaeth.

Rhyddhau cleifion

Mae gan bob claf gynllun gofal unigol yn seiliedig ar asesiad o'i anghenion meddyliol, corfforol a chymdeithasol. Rydym yn cynnal cyfarfodydd gofal rheolaidd ac adolygiadau achos yn unol â chyfarwyddebau Dull Rhaglen Ofal (CPA)/Adran 117. Yn ystod y cyfarfodydd hyn, trafodir cynnydd y claf. Mae topigau eraill a gwmpasir yn cynnwys lleoliadau posibl yn y dyfodol a rhyddhau cleifion.